# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2015

Amser: 09.01 - 11.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3283

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Alun Jones, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)<br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Gwasanaethau Orthopedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

### 2.2 Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru: Llythyr gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru (3 Tachwedd 2015)

## 3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Dr Kate Chamberlain, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Alun Jones, Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel rhan o'r ymchwiliad i lywodraethu byrddau iechyd.

3.2 Cytunodd Dr Chamberlain i anfon y wybodaeth / eglurhad ychwanegol a ganlyn ar:

- Nifer yr adroddiadau a dderbyniodd AGIC gan Gynghorau Iechyd Cymuned yn rhanbarth Gogledd Cymru ynghylch y 39 o ymweliadau a wnaed yn BIPBC;
- A gafodd gohebiaeth Weinidogol mewn cysylltiad â'r pryderon a godwyd ynghylch ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ei rhannu gyda AGIC;
- Nifer yr adolygwyr lleyg gwirfoddol a recriwtiwyd yn ddiweddar gan AGIC;
- Arbenigedd a sgiliau aelodau'r Bwrdd Cynghori, a
- Dadansoddiad, yn ôl mis, o nifer yr adroddiadau nad oedd yn cyrraedd y dyddiad cyhoeddi targed o uchafswm o dri mis yn dilyn yr arolygiad.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.